




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill – Polisi Cymru

Mae'r daflen hon yn un **hawdd ei deall**
gan Lywodraeth Cymru



Yn y ddogfen hon:

Mae ESOL yn golygu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill.

Mae'r dosbarthiadau hyn:

- Yn helpu pobl i ddysgu siarad Saesneg
- Yn helpu pobl i ddysgu darllen Saesneg
- Yn helpu pobl i ddysgu sgrifennu Saesneg.

Cyllid yw arian sy'n cael ei roi gan Lywodraeth Cymru i redeg y cyrsiau hyn.

Darparwyr yw y colegau a'r cynghorau sir sy'n rhedeg y cyrsiau i ni.

Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) – Polisi Cymru

Rydyn ni'n meddwl ei bod hi'n bwysig iawn fod pobl yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg neu Saesneg.

Mae hyn yn helpu pobl i gael gwaith ac i wneud ffrindiau lle maen nhw'n byw.

Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthy ch chi sut gallwch chi ddysgu Saesneg yng Nghymru.

Beth yw ESOL?

Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill yw ESOL.

Mae ESOL ar gyfer pobl sydd ddim yn gallu siarad Cymraeg na Saesneg, ac sydd wedi dod o wledydd eraill i fyw yn y Deyrnas Unedig.

Yng Nghymru, mae rhan fwyaf o bobl sydd angen ESOL yn cael mynd i wersi am ddim.

Mae angen i rai pobl ddysgu Cymraeg yn ogystal â Saesneg.

Maen nhw'n gallu gwneud hyn drwy fynd ar gwrs Cymraeg i Oedolion.

Pobl sy'n dysgu Saesneg mewn gwersi ESOL

Mae pobl sydd arnynt angen dysgu Saesneg yn dod o lawer o wahanol wledydd.



Mae gan rai ohonyn nhw lawer o sgiliau yn barod ac mae arnynt nhw angen Saesneg i allu cael gwaith.

Mae dysgu Saesneg yn gallu bod yn eithaf hawdd iddyn nhw.

Mae'n bosibl fod rhai pobl heb fynd i'r ysgol ryw lawer o'r blaen, felly gallan nhw ei chael hi'n anodd iawn dysgu Saesneg.

Mae hyn yn golygu ei bod hi'n gallu cymryd amser hir i rai pobl ddysgu siarad Saesneg yn dda.

Mae gennym ni ddosbarthiadau ar gyfer gwahanol lefelau.



Mae hyn yn helpu i wneud yn siŵr fod pobl mewn dosbarth sy'n addas iddyn nhw ac sy'n dysgu'r pethau iawn ar yr adeg iawn iddyn nhw.



Gall pobl fynd i ddosbarthiadau ESOL ar wahanol adegau o'r dydd.

Gall y cyrsiau fod yn rhai byr, yn para ychydig wythnosau, neu'n gyrsiau hir sy'n para am flwyddyn.

Bydd llawer yn dibynnu ar beth mae pobl eisiau ei ddysgu a pham maen nhw eisiau dysgu.

Mae angen dosbarthiadau Saesneg ar lawer o bobl i'w helpu nhw i gael gwaith neu i fynd i'r coleg i ddysgu pethau eraill.

Mae gan rai o'r colegau wersi arbennig lle mae pobl yn dysgu Saesneg ar yr un pryd â dysgu sgil arbennig fel gofal iechyd neu adeiladu.

Mae hyn yn helpu pobl i ddysgu'r geiriau mae eu hangen arnyn nhw i wneud swyddi arbennig.

Dyw rhai pobl ddim yn chwilio am waith.



Maen nhw eisiau dysgu Saesneg er mwyn gallu helpu eu plant yn yr ysgol, neu er mwyn gallu siarad â doctoriaid a gwasanaethau eraill ar eu pennau eu hunain.

Mae methu â siarad Saesneg yn gallu golygu bod rhai pobl yn ei chael yn anodd gwneud ffrindiau a chael yr help sydd ei angen arnyh nhw.

Rydyn ni'n talu am ddsbarthiadau i'r holl bobl hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i golegau a darparwyr eraill i gynnis dosbarthiadau ESOL am ddim.



Mae hyn yn golygu bod pobl yn gallu dysgu Saesneg heb orfod talu am wersi eu hunain.

Gall bron pawb sydd angen help fynd i'n dosbarthiadau Saesneg. Mae hyn yn cynnwys Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches.

Cymorth i ddysgwyr

Gall dysgu Saesneg fod yn anodd iawn a gall gymryd amser maith.

Mae'n bwysig bod pobl yn ymarfer.



Mae llawer o sefydliadau yn cynnig clybiau arbennig i bobl gwrdd â dysgwyr eraill ac ymarfer eu sgiliau Saesneg.

Dyw'r clybiau ddim yn wersi ffurfiol, yr enw arnyn nhw yw sesiynau 'galw heibio'.

Maen nhw'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr ac mae pobl yn cael galw heibio iddyn nhw unrhyw bryd.



Mae'r clybiau hyn yn cwrdd mewn mannau lleol, cymunedol, felly maen nhw'n lleoedd diogel i bobl fynd iddyn nhw ac ymarfer eu Saesneg.

Cynlluniau Adsefydlu Ffoaduriaid

Mae llawer o bobl wedi dod i Gymru i fyw fel rhan o'r Cynllun Adsefydlu Pobl o Syria sy'n Agored i Niwed (VPRS) a'r Cynllun Adsefydlu Plant mewn Perygl (VCRS).

Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n rhedeg y cynlluniau hyn.

Mae gwersi Saesneg yn rhan bwysig o'r cynlluniau hyn.

Mewn rhai lleoedd, mae angen i bobl ddysgu Cymraeg hefyd. Weithiau maen nhw'n gallu gwneud hyn fel rhan o'r cynllun.

Rydyn ni'n ceisio gwneud yn siŵr bod pobl sydd yng Nghymru oherwydd y cynlluniau hyn yn cymysgu â phobl eraill.

Mae hyn yn helpu i wneud yn siŵr fod pawb yn cael yr un cyfle i ddysgu Saesneg.

Mae hefyd yn helpu pobl i gwrdd â phobl newydd ac i wneud ffrindiau newydd.

Y Gymraeg

Pan fydd pobl yn dod i Gymru, mae'n bwysig eu bod nhw'n gweld bod pobl yn siarad Cymraeg a Saesneg yma.

Mae ein darparwyr yn rhoi cyfle i ddysgu ychydig o Gymraeg yn ogystal â Saesneg yn eu dosbarthiadau.

Mae hyn yn helpu pobl i ddeall bod dwy iaith wahanol yn cael eu siarad yng Nghymru.

Mae hefyd yn helpu pobl i ddysgu mwy am ein hanes a'n diwylliant.

Gall pobl gael rhagor o help i ddysgu Cymraeg drwy fynd ar gwrs Cymraeg i Oedolion.


ESOL yn y dyfodol

Rydyn ni'n addo gwneud rhai pethau penodol i wneud yn siŵr bod ein ESOL yn parhau i fod yn dda:

Bydd Llywodraeth Cymru:




- Yn gwneud yn siŵr ein bod yn dal ati i ariannu ESOL fel ei fod yn ddi-dâl i bobl sy'n dysgu Saesneg.
- Yn dal ati i chwilio am ffyrdd eraill o gael mwy o arian i helpu pobl i ddysgu Saesneg.
- Yn parhau i roi cynnig ar bethau eraill i weld sut gallwn ni helpu pobl yn well; a phan fydd rhywbeth yn gweithio, fe fyddwn ni'n ei ddefnyddio fe mewn lleoedd eraill hefyd.



- Yn helpu pobl sy'n rhoi gwersi Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill i siarad â'i gilydd er mwyn iddyn nhw allu dal ati i ddysgu ac i rannu gwybodaeth ynghylch beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio.

- Yn gweithio i wneud yn siŵr fod pobl sy'n dysgu Saesneg yn gallu parhau i ddysgu os ydyn nhw eisiau.
- Yn gweithio i wneud yn siŵr eu bod nhw'n gwella wrth siarad Saesneg.
- Yn helpu dysgwyr i gael gwaith sy'n gweddu iddyn nhw.
- Yn ystyried beth y gallai Brexit ei olygu i bobl sydd eisiau dysgu Saesneg yng Nghymru.
- Yn gwneud yn siŵr bod mwy o ffyrdd, a gwell ffyrdd i ddysgwyr ESOL gael dysgu Cymraeg.
- Yn dal ati i gasglu gwybodaeth am y bobl sydd angen dysgu Saesneg er mwyn i ni gael gwneud yn siŵr ein bod yn cynnig y dewisiadau cywir i bobl.



Byddwn yn disgwyl i ddarparwyr wneud y canlynol:



- Gwneud yn siŵr fod y cymwysterau a'r hyfforddiant iawn gan athrawon ac aseswyr ESOL.
- Gwneud yn siŵr eu bod yn nodi faint o Saesneg mae pobl yn gallu ei siarad yn barod er mwyn gallu eu rhoi nhw yn y dosbarthiadau iawn.
- Cefnogi rhagor o wirfoddolwyr sydd wedi cael eu hyfforddi, er mwyn helpu pobl i ddysgu Saesneg yn eu dosbarthiadau ac mewn lleoedd eraill.
- Helpu pobl i fynd i ddosbarthiadau ar wahanol adegau o'r flwyddyn.
- Cynnig dosbarthiadau mewn gwahanol fannau, yn enwedig yn y gymuned, a gweithio gyda chwmnïau i gael dosbarthiadau yn y gwaith hefyd.

- Gwneud yn siŵr eu bod yn cynnig dosbarthiadau ar wahanol lefelau, ac ar wahanol adegau o'r dydd i helpu pobl i ddod i'r dosbarthiadau hyd yn oed os ydyn nhw'n gweithio neu'n gofalu am bobl eraill.



- Helpu pobl i ddysgu siarad Saesneg yn well drwy ddefnyddio adnoddau ar-lein – gan gynnwys cyrsiau ar-lein a defnyddiau i'w helpu i ddysgu.
- Helpu pobl i ymuno â grwpiau sy'n eu helpu i wneud ffrindiau ac i ymarfer eu Saesneg.